

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Bessie Roberts (Llanefydd) ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i mab a'i merch – Haydn a Carol, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag Ifor Ellis (Groes) a'r teulu oll a hynny yn dilyn colli mam Ifor; a hefyd Charles Roberts (Llanefydd) a'r teulu, yntau hefyd wedi colli ei fam yn ystod yr wythnos. Cofiw'n am y tri theulu ac eraill o'r Ofalaeth sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar. Hyderwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am anwyliaid.
- Parhawn i gofio am Elwy Evans (Tanyfron) sydd bellach wedi symud i Ysbyty Abergele, a hefyd Bob Davies (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Llandudno. Cyflwynwn y ddau, a phawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.

** Llety **

Gofynnwn eto yn garedig i **unrhyw un o'r Ofalaeth** all gynnig llety (gwely a brecwast) i rai o aelodau Côr y Synod, Mizoram i gysylltu â Bet Jones (Cefn Meiriadog) ar fyrder, os gwelwch yn dda: (01745) 584349 / jones_beti@yahoo.co.uk. Byddem yn ddiolchgar o lety am naill ai un, dwy neu dair noson (Gorffennaf 11, 12, 13), a hynny ar gyfer un, dau neu fwy o bobl. (Mae angen llety ar gyfer tua 30 ohonynt i gyd.) Bydd angen llety fel a ganlyn: Nos Wener = 8.00 yr hwyr tan tua 10.00 bore Sadwrn. Yna, yn hwyr nos Sadwrn (ar ôl cystadleuaeth Côr y Byd yn Llangollen) tan tua 10.00 bore Sul; ac yna ar ôl yr oedfa nos Sul tan tua 9.00 bore Llun pryd y byddant yn gadael i ddal y trê'n yng Nghaer. Byddai eich lletygarwch yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolch.

I ddod

- **DIWRNOD ARBENNIG I FLAENORIAID** yng Nghapel Tegid, Y Bala ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12fed (10.30 – 3.30). Rhoddir sylw yno i addoli ac i waith blaenor, a bydd sgwrs “Pam dathlu? Pam Cofio?” gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth a ninnau eleni yn dathlu 300 mlwyddiant geni Howell Harris ac yn cofio 200 mlwyddiant geni Thomas Charles. Darperir cinio gan arlwywyr allanol ac felly rhowch eich enw i Mair erbyn dydd Sul, Gorffennaf 6ed, os gwelwch yn dda.
- **SUL ARBENNIG I'R FRO** dydd Sul, Gorffennaf 13eg yn Llansannan am 10.30 a 6.00. Bydd cyfle i'r plant a'r oedolion i gyflwyno'r gwaith llafar yn oedfa'r bore, a chawn hefyd gwmni a chyfle i gydaddoli a chlywed y **Côr o Fizoram** yn canu. Yn dilyn oedfa'r bore, bwriadwn fynd i'r cae chwarae i gael barbeciw, gemau, ac i gymdeithasu. Yna am 6.00, bydd Oedfa o Fawl, eto yng nghwmni'r Côr.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Mehefin 2014

Darlleniad y Dydd

Philemon 1-7

(BCND tud.238 / BCN: tud.219)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw. Wrth i ni edrych ar lythyr Paul at Philemon heddiw cawn ein hatgoffa fod cariad tuag at Dduw yn mynd law yn llaw hefo cariad tuag at ei bobl. Cariad sy'n clymu'r eglwys yn un teulu a diolchwn i Dduw am ein gosod yn y fath gymdeithas a bod y ffydd sy'n gyffredin rhyngom yn “gyfrwng effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth o'r holl ddaioni sydd yn eiddo i ni yng Nghrist.”

Rwy'n gweddïo y bydd hyn yn wir amdanom pan ddaw y Côr atom o Mizoram. Wrth fwynhau eu cwmni gobeithio y gwelwn pa mor dda yw Duw! Mae cymdeithas hefo pobl Dduw yn un o'r nifer dirifedi o fendithion a gawn gan Dduw er mwyn ein cadarnhau yn y ffydd ac er mwyn i ni werthfawrogi'r hyn a wnaeth Iesu drosom a thros eraill tebyg i ni drwy'r byd i gyd. Un Iesu sydd, un aberth ac un atgyfodiad yn obaith i bob un sy'n credu. Gweld mwy o ogoniant Iesu a wnawn ni wrth weld fod Iesu yn Arglwydd ym mywydau pobl eraill a bydd cael y Côr yma yn ein hatgoffa o'r hyn sydd yn wir i ni o Sul i Sul, sef bod gennym fraint fawr iawn o gael cydaddoli hefo'n gilydd.

Pam fod Mizoram mor bwysig i ni fel eglwys yng Nghymru? Mae'n rhaid edrych yn ôl i gychwyniadau'r maes cenhadol i gael yr ateb. Cymry Cymraeg oedd y cenhadon cynnar ac fe anwylywyd Cymru gan y Cristnogion yn Mizoram fyth oddi ar hynny. Y Parch. D. E. Jones o Landderfel ddaru wreiddio'r efengyl yn Mizoram o 1897 hyd 1926. Gŵr amyneddgar a duwiol ydoedd a chafodd ei enwi'n Zosaphluai, sef yr 'hen' genhadwr. Cafodd ei fagu ar aelwyd ddefosiynol a byddai ei dad yn darllen storïau o'r Beibl i'w deulu ar nos Sul. Cafodd D. E. Jones ei gadarnhau yn ei ffydd yng Nghrist pan oedd yn 17 oed. Geilw'i dröedigaeth dawel yn 'dröedigaeth Timotheus' – darlun hyfryd o ŵr ifanc yn cael ei feithrin yn y ffydd gan ei deulu ac yna'n dod i argyhoeddiad personol a oedd i'w arwain at sicrwydd ffydd a gwardedigaeth yng Nghrist ei Hun.

Dangosodd sensitifrwydd mawr tuag at sefyllfa'r Mizo a chafodd ei dderbyn fel un ohonynt. Er na chafodd glod nac anrhydedd mawr gennym ni'r Cymru, y mae D. E. Jones yn uchel iawn ei barch yn Mizoram am iddo ddwyn yr Efengyl i'w plith ac am iddynt ddod i adnabod Duw trwy'r Beibl a'r broffes a ddaeth yn sgil presenoldeb y gŵr hwn o Landderfel. Diolch i Dduw amdano ac am fod Duw wedi bod yn ffyddlon i'w addewid i fendithio holl dylwythau'r ddaear yn had Abraham, sef Iesu. Dod yn ôl i roi diolch a wna'r Côr a braf fydd cael cyd-addoli gyda hwy y Duw sydd yn ein caru gymaint!

Darlleniad Wythnos Nesaf:

Jeremeia 18: 1-10 (BCND tud.703 / BCN: tud.641)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Y Green, Dinbych. Yn dilyn y materion busnes, bydd y Parch. Bernant Hughes yn annerch ar “Y Dyfodol...”.
- Sadwrn • **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Trefnant. Pwyllgor Gwaith am 3.00, a gwaith yr Henaduriaeth am 4.30. Dymunwn fendith Duw ar Sian W.Jones sydd wedi ei dewis i wasanaethu fel blaenor yng Nghapel Tanyfron ac a fydd yn cael ei hordeinio mewn oedfa gyhoeddus yn Nhrefnant am 7.00.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd paned i ddilyn oedfa'r bore er budd Tearfund. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Wedi'r oedfa, bydd yr aelodau'n mynd ar daith i Lanberis ar ôl stopio am ginio yn y Tŷ Golchi, Bangor. Bydd Oedfa Deuluol yn Groes am 10.00 ac yna bydd yr Ysgol Sul yn dilyn oedfa'r bore.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Sioned Ll. Williams yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghewn Berain am 12.00. Croeso i bawb!
- Sul nesaf Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r oedolion am 11.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.